Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Lleol: **Cyngor Bro Morgannwg**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae cynlluniau strategol Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn 2012/2013 i'w gweld yn y cynllun newid 2011 i 2014 ac yn rhaglen y gyllideb. Mae'r cyngor wedi parhau i weithredu ac adolygu'r cynllun newid. Mae integreiddio gyda chynghorau cyfagos ac â'r bwrdd iechyd yn parhau yn flaenoriaeth.

Gwasanaethau i oedolion

Mae'r cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol o fewn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau i oedolion gyda'r sefyllfa ariannol yn sefydlogi eto, er y disgwylir i 2013/14 fod yn heriol. Dywed y cyngor bod y galw am wasanaethau i bobl hŷn wedi parhau i godi, gyda chynnydd sylweddol yn y chwarter perfformio olaf. Er gwaethaf cynnydd sylweddol yn niferoedd yr asesiadau sy'n cael eu cynnal a gostyngiad yn yr amserau cwblhau, mae rhestr aros am asesiad yn y tîm gofal cymunedol i oedolion wedi datblygu.

Mae cynllun gwella'r cyngor 2013/2014 yn ystyried gallu i gyflawni gwasanaethau ac yn amlinellu amcanion allweddol i wella a chynnal gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl hŷn sy'n nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn yn cael eu bodloni o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 2011 a 2018.

Gwasanaethau i blant

Mae perfformiad yn dda yn y gwasanaethau i blant, gyda'r cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau statudol yn bron i bob maes. Canfu arolygiad gan AGGCC o wasanaeth maethu'r cyngor ei fod yn cydymffurfio ac yn gweithredu'n dda. Mae'r cyngor wedi parhau i gyflawni arbedion corfforaethol yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf. Serch hynny, mae lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn parhau i roi pwysau ar y gyllideb. Mae'r Strategaeth Comisiynu Plant a Phobl Ifanc yn amlinellu sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu bodloni o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2018.

Mae'r cyngor wedi gweithredu ei strategaeth i ostwng ei boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal trwy ryddhau gorchmynion gofal a chynyddu'r defnydd o warchodaeth arbennig ar gyfer plant sydd mewn lleoliadau sefydlog. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn sylweddol eleni.

Mae nifer y plant a phobl ifanc y mae eu henwau yn ymddangos ar y gofrestr amddiffyn plant wedi aros yn sefydlog yn ystod 2012/13. Mae'r cyngor yn parhau i ddangos perfformiad cryf o ran prydlondeb wrth gynnal cynadleddau amddiffyn plant a chyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol.

Mae'r cynllun cyflwyno strategaeth gymunedol Cynllunio a Gweithio Gyda'n Gilydd 2011 i 2021 (a baratowyd yn unol â dyletswydd y cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) yn cynnwys canlyniadau a chamau sy'n gysylltiedig â thlodi plant ynghyd â phersonél penodol i arwain ar fonitro canlyniadau.

Ni dderbyniodd AGGCC gopi o adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr i'r cyngor tan yn hwyr yn y broses werthuso flynyddol hon. O ganlyniad, prin fu'r cyfle i ddilysu'r holl wybodaeth sydd yn yr adroddiad. Serch hynny, mae'r adroddiad i bob pwrpas yn rhoi trosolwg lefel uchel o waith y gyfarwyddiaeth yn ystod y flwyddyn, gan dynnu sylw at lwyddiannau, heriau a'r cyfeiriad i'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y cyd gyda chynghorau a byrddau iechyd cyfagos lle y mae'r meini prawf cymhwyster ac ariannu yn amrywio. Dylai cynllunio strategol barhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau teg.
- Effaith y diwygiadau lles. Mae gan y cyngor wybodaeth gynhwysfawr ar ei wefan yn ymwneud â'r newidiadau i les.

Ymateb i feysydd datblygu’r llynedd

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd y nodwyd bod angen eu datblygu y llynedd.

Mae'r cynllun gwella ar gyfer 2013/14 yn cynnwys yr amcan o gynyddu gofalwyr maeth mewnol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi trwy ddatblygu strategaeth recriwtio gofalwyr maeth, recriwtio gweithiwr cymdeithasol cofrestredig am dymor penodol wedi ei neilltuo i recriwtio a datblygu ymgyrch farchnata.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori eang gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Ar y cyfan mae'r canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol. Ceir

tystiolaeth o ymgynghori parhaus gyda phobl ar ystod o faterion gan gynnwys y defnydd o safle Bryneithin yn y dyfodol.

Mae'r cyngor wedi adolygu'r cyfraddau ail-atgyfeirio o fewn y gwasanaethau i blant ac wedi cymryd camau i wella perfformiad. Effaith hyn fu gostyngiad sylweddol yn nifer yr ail-atgyfeiriadau.

Mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu gwaith ar ostwng nifer y bobl sy'n profi oedi wrth gael eu trosglwyddo o'r ysbyty. Dengys data perfformio eleni ostyngiad bach yn y nifer sy'n profi oedi cyn rhyddhau, er bod y niferoedd o ran oedi yn dal yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.

Mae'r cyfarwyddwr yn adrodd y bu cynnydd yn nifer y bobl gydag anghenion cymhleth sy'n derbyn gofal cartref a gostyngiad yn nifer y bobl sy'n derbyn gofal yn y gwasanaethau preswyl/nyrsio.

Yn dilyn cyfnod o berfformiad gwell yn erbyn targedau, gwelwyd cynnydd mewn lefelau absenoldeb staff. Serch hynny, am y tro cyntaf, mae'r holl staff o fewn y gwasanaethau cymdeithasol wedi cymryd rhan mewn gwerthusiad blynyddol.

Mae gan y cyngor strategaeth i fynd i'r afael â gwariant uchel ar leoliadau gofal preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth gofalwyr maeth a all ymateb i ymddygiadau heriol, lleoliadau ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol (gan gynnwys ieuenctid ar remand), lleoliadau rhiant a babi, lleoliadau ar gyfer plant anabl a lleoliadau byr dymor neu brys. Mae'r cyngor hefyd yn adolygu'r trefniadau llety sydd ar gael o fewn yr ardal.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi’r meysydd canlynol o arfer da:

- Cryfder blaengynllunio gyda blaenoriaethau ac amcanion clir.
- Parhau i geisio integreiddio, gan gynnwys trefniadau gwirioneddol a rhithiol.
- Arweinyddiaeth ar nifer o fentrau i ddatblygu integreiddiad â'r adran iechyd.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn cyfarfu AGGCC yn rheolaidd gydag uwch swyddogion a chynnal arolygiadau ar wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor ac o fewn ardal y cyngor.

Cynhaliwyd ymweliad safle â'r gwasanaeth iechyd meddwl oedolion hŷn. Nododd yr ymweliad gydymffurfiad y cyngor â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Arsylwodd AGGCC hefyd waith y pwyllgor craffu iechyd a gofal cymdeithasol.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

- Ymweliad safle â'r tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd sy'n darparu cymorth cynnar i deuluoedd.
- Rheoli oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.
- Arolygiad thematig cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Datblygwyd y Cynllun Newid (2011 i 2014) gan grŵp prosiect corfforaethol yn cynnwys swyddogion o'r cyngor cyfan, gyda chynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac o Ganolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro. Mae hwn yn fframwaith cyffredinol ar gyfer gwella gwasanaeth yn barhaus ac mae'n darparu cyfeiriad cydlynol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae saith maes blaenoriaeth yn y cynllun. Yn eu plith y mae integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, comisiynu, integreiddio gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc a chyd-gynhyrchu. Mae'r cynllun newid yn cael ei graffu yn rheolaidd gan bwyllgor craffu. Ers ei ddatblygu, mae chwe adroddiad o gynnydd wedi'u cyflwyno i'r tîm rheoli corfforaethol.

Mae Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011/2021 yn cynnwys y strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles a'r strategaeth pobl hŷn a'r cynllun plant a phobl ifanc. Un o'r 10 canlyniad a flaenoriaethwyd, yw bod pobl hŷn yn cael eu cefnogi i barhau yn annibynnol, yn iach ac yn egnïol ac yn cael y gwasanaethau angenrheidiol i fodloni eu hanghenion amrywiol a newidiol. Nod arall yw bod anghydraddoldebau iechyd yn cael eu lleihau a bod preswylwyr yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau, y wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i wella eu lles ac ansawdd eu bywydau.

Mae'r cyngor yn datblygu gwasanaethau ar sail model "unigolyn cyfannol, system gyfannol" o atal ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r dull hwn yn gyson â chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol - Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru – Fframwaith Gweithredu.

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi asesiad o'u perfformiad. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd bod y cyngor wedi bodloni'r ddyletswydd hon drwy gyhoeddi ei gynllun gwella 2012/13 ar amser.

Mae’r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2013/2014 yn adroddiad y cyfarwyddwr yn cynnwys datblygu fframwaith cynllunio gweithlu ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn gyffredinol, cwblhau uno Byrddau Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro, cynyddu cydymffurfiad darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol â Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, cynyddu'r defnydd o

dechnolegau cymorth a datblygu cynllun gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn a fydd yn galluogi cymorth ddydd a nos a phecynnau gofal cymunedol.

Oedolion

Gellir gweld cynllun blaenoriaeth y cyngor ar gyfer integreiddio yn cael eu gweithredu yn y trefniadau canlynol. Mae tair uwch swydd o fewn y gwasanaethau i oedolion erbyn hyn sy'n benodiadau ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Gwnaed penodiad ar y cyd yn ddiweddar gyda Chyngor Caerdydd i reoli gwasanaethau anabledd dysgu i oedolion. Mae'r cynghorau yn ymgynghori ar strategaeth ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu.

Mae gwaith wedi'i wneud gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu cronfa welyâu ar y we o'r gwelyau mewn cartrefi gofal sydd ar gael yn yr ardal.

Ceir bwrdd rheoli tridarn gyda Chyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i oruchwylio gofynion o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Dengys ymweliad safle gan AGGCC â'r tîm integredig iechyd meddwl i oedolion hŷn bod y cyngor yn bodloni gofynion statudol Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Arweiniodd cais llwyddiannus ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro at weithredu cronfa gydweithredol ranbarthol i gyflawni modelau gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Plant

Mae'r Strategaeth Gomisiynu Plant a Phobl Ifanc yn nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu bodloni o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2018. Mae gan y strategaeth bedwar amcan allweddol, sy'n cynnwys cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, cefnogi'r rhai sydd ar gyrion gofal, darparu cynnydd mewn lleoliadau fforddiadwy o ansawdd a sicrhau bod gan blant lwybr wedi'i gynllunio.

Dengys data perfformiad bod sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi dod yn fwy problemus wrth i benderfyniadau am leoliadau sefydlog gael eu rhoi ar waith. Mae gan y cyngor gynlluniau i ystyried datblygu tîm cymorth lleoliad dwys i gyflawni ymyraethau wedi'u targedu er mwyn atal methiant lleoliadau ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Mae'r strategaeth gymunedol yn nodi'r angen i osod nodau craidd ar gyfer gostwng effaith tlodi ar blant a theuluoedd trwy, er enghraifft, y rhaglen Dechrau'n Deg. Mae gwasanaethau Dechrau'n Deg yn cael eu hymestyn ar hyn o bryd yn ardal Castleland yn nhref y Barri.

Gwnaed cynnydd ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y gwasanaethau i blant gan gynnwys lansio'r protocol esgeuluso ym Mro Morgannwg a chyflwyno briffiadau a hyfforddiant i staff i gefnogi gweithredu'r protocol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Mae cynnydd yn parhau ar uno Byrddau Lleol Diogelu Plant Bro Morgannwg a Chaerdydd.

Meysydd o gynnydd

- Mae cais llwyddiannus ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd wedi arwain at weithredu cronfa gydweithredol ranbarthol i gyflwyno modelau gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Meysydd i'w gwella

- Sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, asesu ac ymateb i newid lleoliad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Ceir ystod o gyfleoedd cyswllt ar gyfer pobl, sy'n cynnwys darparu gwybodaeth trwy gysylltiadau cymunedol ac iechyd. Mae gan y cyngor wefan i sicrhau bod pobl yn gallu gweld y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Ceir system dyletswydd y tu allan i oriau arferol a darpariaeth pecynnau gwybodaeth arbenigol a chyffredinol trwy ganolfan gyswllt y cyngor (Contact One Vale).

Mae'r gwasanaeth TeleV (pecyn diogelwch yn y cartref) a'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau arferol wedi'u cydleoli o fewn Contact One Vale, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gwell cydweithio rhwng y cyngor a phartneriaid iechyd. Mae Gwasanaeth Gofal Canolraddol Bro Morgannwg yn defnyddio'r systemau hyn i ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng.

Mae asesu a rheoli gofal ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn cael eu darparu trwy drefniadau tîm amlasiantaethol. Mae cynlluniau'n parhau i gael eu gweithredu ar gyfer integreiddiad cynyddol o wasanaethau gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae prosiect monitro a chymorth rhanbarthol ar gyfer pobl ag awtistiaeth nad ydynt angen darpariaeth gofal cymdeithasol ffurfiol yn cael ei arwain gan Gyngor Bro Morgannwg ar y cyd â thri chyngor arall. Mae'r cyngor hefyd wedi hwyluso grŵp cymdeithasoli wedi'i arwain gan ddefnyddwyr, grŵp cymdeithasol gyda'r nos ar gyfer oedolion a fforwm misol i oedolion gyfnewid barn ac i gyfrannu at gyfeirio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol o fewn y gwasanaethau anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Ar gyfer pobl sydd angen cymorth gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, mae'r cyngor yn dweud bod ganddo drefniadau gweithio agos gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol y Fro a Chyngor Caerdydd. Mae'r bwrdd

cynllunio ardal amlddisgyblaeth, sy'n gweithredu ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol, wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y rhestr aros am wasanaethau yn y maes hwn.

Mae ailstrwythuro a gwell lefelau staffio mewn therapi galwedigaethol wedi arwain at ostyngiad yn yr amser y mae'n rhaid i bobl aros am wasanaethau. Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno modelau sgrinio newydd ar gyfer therapi galwedigaethol erbyn 2014.

Plant

Rheolir yr holl atgyfeiriadau a chysylltiadau ar gyfer plant a phobl ifanc trwy'r tîm derbyn a chymorth i deuluoedd. Roedd canran yr atgyfeiriadau i'r cyngor yn ystod y flwyddyn pryd y gwnaed penderfyniad o fewn un diwrnod gwaith yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gostyngodd gyfran yr atgyfeiriadau na symudodd ymlaen at asesiad a chynyddodd canran yr atgyfeiriadau a neilltuwyd i weithiwr cymdeithasol ar gyfer asesiad cychwynnol gan bron i draean. Ymddengys bod hyn wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr ail-atgyfeiriadau i'r cyngor, sydd wedi gostwng yn sylweddol.

Mae asesiadau cychwynnol yn cael eu cynnal gan swyddogion gofal cymdeithasol profiadol iawn sy'n cael eu goruchwylio gan weithwyr cymdeithasol cymwysedig, yn ogystal â chan y gweithwyr cymdeithasol cymwysedig eu hunain. Mae pedwar swyddog gofal cymdeithasol profiadol, sydd wedi bod gyda'r cyngor am nifer o flynyddoedd, ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r cyngor yn comisiynu trefniadau maethu mewnol ac annibynnol ar gyfer plant a llety seibiant (gyda Gweithredu dros Blant) ar gyfer plant ag anableddau dysgu.

Mae data perfformiad yn awgrymu bod y cyngor yn ymwybodol o nifer fawr o ofalwyr ifanc. Mae pob un ohonynt wedi cael cynnig asesiad gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn derbyn y cynnig hwn. Ceir cyfeiriadur gwasanaethau cymorth i ofalwyr (gyda Chanolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro) ac mae llyfryn haf Activale yn nodi manylion y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

Meysydd o gynnydd

- Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y Fro a bwrdd cynllunio ardal amlddisgyblaeth Cyngor Caerdydd yn gweithredu ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol ac mae wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y rhestr aros am wasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Gostyngiad yn nifer yr ail-atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau i blant.
- Gweithredu model asesu a chynllunio gofal sy'n gysylltiedig ag ail-alluogi. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaethau ynghynt.

Maes i'w wella

- Cynyddu'r maethu sydd ar gael yn fewnol.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

O fewn y bwrdd rhaglen iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer Cynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd, ceir prosiect penodol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Ceir un trefniant rheoli llinell erbyn hyn ar gyfer staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol tîm iechyd meddwl cymunedol Amy Evans a thîm iechyd meddwl cymunedol Hafan Dawel. Mae'r cyngor yn dweud bod trefniadau tebyg yn cael eu sefydlu ar gyfer Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Gorllewin y Fro yn y Bont-faen.

Yn dilyn adroddiad gan yr uned cyflwyno a chymorth ar y tîm integredig iechyd meddwl oedolion hŷn, pryd y gwnaed nifer o argymhellion, awgrymodd y cyngor y dylai AGGCC gynnal ymweliad â'r tîm iechyd meddwl oedolion hŷn. Cynhaliwyd ymweliad dilynol â'r safle dros gyfnod o ddeuddydd ym mis Chwefror 2013.

Darparodd yr ymweliad dystiolaeth o berfformiad gwell yn ystod y flwyddyn. Roedd y gwasanaeth wedi elwa ar gymorth uwch reolwyr i wella'r broses o ddatrys problemau a chanfuwyd eu bod yn bodloni'r amserlenni sy'n ofynnol gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Cafwyd tystiolaeth bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn fwy effeithiol gyda llai o oedi wrth drosglwyddo gofal.

Roedd y meini prawf neilltuo blaenorol yn golygu bod y tîm yn cefnogi ystod ehangach o bobl gan gynnwys y rheini a oedd newydd gael eu nodi gan Feddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol eraill fel bod angen cymorth. Mae'r atgyfeiriadau hyn yn mynd at y Tîm Gofal Cymunedol i Oedolion erbyn hyn sy'n ymgymryd â'r holl atgyfeiriadau gofal cyffredinol neu sylfaenol. Nid yw'r adnoddau wedi'u trosglwyddo hyd yma o'r Tîm Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn i'r Tîm Gofal Cymunedol i Oedolion. Mae'n bosibl bod hyn wedi cyfrannu, yn rhannol, at y rhestr aros sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y Tîm Gofal Cymunedol i Oedolion.

Mae rhai heriau yn parhau o ran integreiddio a datblygu gwasanaethau ar draws y cyngor cyfan. Mae ffiniau'r ardal ddaearol a wasanaethir gan y cyngor yn wahanol i ffiniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Darperir gwasanaethau iechyd meddwl yn y gorllewin gan Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, gyda chyfleusterau cleifion mewnol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar gyfer y gweithwyr cymdeithasol yn y Tîm Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, mae hyn yn golygu gweithio gyda dau grŵp o gydweithwyr iechyd arbenigol, un grŵp yn rhannu lleoliad y tîm, a'r llall wedi'i leoli yr ochr arall i'r fwrdeistref sirol. Yn anochel, mae hyn yn golygu bod staff y cyngor yn gorfod gweithio i ddwy gyfres o bolisïau gweithredol, er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i weithredu arferion gwaith cyffelyb pan fo hynny'n bosibl. Ceir problemau tebyg yn y gogledd, ble y mae rhai gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf, er nad yw hyn yn effeithio ar gymaint o gleifion.

Mae'r rhaniad hwn yn cael effaith ar y gwasanaeth sydd ar gael a'u datblygiad. Yn y dwyrain gall y Tîm Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn alw ar y tîm REACT sy'n

cael ei redeg gan yr adran iechyd, ac sy'n darparu ymateb saith diwrnod yr wythnos i argyfyngau ar gyfer pobl hŷn gyda phroblemau iechyd meddwl yn y gymuned. Mae nyrsys a gweithwyr cymdeithasol yn gweithredu fel rheolwyr achos a gallant i gyd gomisiynu gwasanaethau o gyllideb gwasanaethau cymdeithasol y cyngor. Yn y gorllewin, mae nyrsys seiciatrig cymunedol yn darparu triniaeth yn y cartref ac yn cyflenwi ar benwythnosau, ond nid oes ganddynt yr un cylch gorchwyl mewn argyfwng.

Mae'r ymgyrch WYN yn cynrychioli gwaith ar y cyd gan Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cynrychiolwyr y sector gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaeth. Mae WYN yn fodel gofal sy'n ceisio darparu gwasanaeth di-dor trwy'r asiantaethau, gan symud oddi wrth fodelau meddygol a darparu ymyraethau cyflym o fewn amseroedd cyfyngedig.

Ceir gwasanaeth bach ond arbenigol ar gyfer pobl â nam ar un neu fwy o'u synhwyrau, a ddarperir trwy'r timau gofal cymunedol i oedolion a therapi galwedigaethol. Cynhelir asesiadau arbenigol ar gyfer ail-alluogi ar gyfer nam ar y golwg a gwasanaethau cyfarpar i fodloni anghenion oedolion sydd wedi colli'r defnydd o un o'u synhwyrau. Mae'r cyngor yn dweud y bu gostyngiad o 50% yn nifer y bobl sy'n aros am wasanaeth penodol gan y swyddog adsefydlu ar gyfer nam ar y golwg.

Ar gyfer gofalwyr pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, ceir swyddog cymorth penodol i ofalwyr. Mae asiantaeth trydydd sector, Hafal, wedi ei chomisiynu i ddarparu gwasanaeth i gefnogi gofalwyr unigol a gweithredu grwpiau cymorth i ofalwyr a gweithgareddau.

Mae grwpiau trydydd sector megis Croesffyrdd yn y Fro yn darparu cymorth gofal dementia arbenigol i ofalwyr. Mae'r pecynnau gofal yn cynnwys gofal cartref yng nghartrefi'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain, grwpiau cymorth cymunedol ar gyfer gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â chyngor a chwnsela arbenigol.

Plant

Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg a'r llynedd fe gyflwynodd y ddarpariaeth hon yn un o'i wardiau. Mae Dechrau'n Deg yn targedu ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn unol â phrosesau mesur anfantais gymharol gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Dengys data perfformiad ar gyfer 2012/2013 bod dros 800 o blant yn y Fro wedi elwa o'r fenter Dechrau'n Deg, gyda nifer y plant a oedd yn bodloni neu'n rhagori ar eu cerrig milltir yn dair oed ychydig bach yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.

Mae gan y cyngor brosiect Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i seilio ar y model Tîm o Amgylch y Teulu, a adnabyddir fel y tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd. Amcanion y prosiect yw nodi pa un a oes angen gwasanaeth ar gam cynnar er mwyn atal teuluoedd rhag bod angen gwasanaethau statudol. Gwneir atgyfeiriadau gan asiantaethau ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed,

pan fo pryder am gynnydd neu les plentyn neu berson ifanc ac na ellir bodloni anghenion y teulu trwy un gwasanaeth yn unig.

O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (2010), mae gan gynghorau a byrddau iechyd gyfrifoldeb statudol i gyflawni rhaglenni ar y cyd i sicrhau'r ddarpariaeth o'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae'r cyngor, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd, wedi gweithredu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ers mis Chwefror 2012.

Mae'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi'u trosglwyddo o swyddfa'r prif weithredwr yn ôl i'r Is-adran Plant a Theuluoedd. Mae'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cynnig cymorth rhianta i deuluoedd y plant a phobl ifanc hynny sydd wedi'u hasesu fel bod "mewn perygl o droseddu". Mae'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid hefyd yn cynnig mynediad at raglenni un i un neu waith grŵp i rieni cymwys.

Cafodd gwasanaeth maethu Bro Morgannwg ei arolygu gan AGGCC yn 2013. Ar yr adeg honno, roedd gan y gwasanaeth 76 o ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo. Roedd y casgliad data blaenorol yn nodi bod 96 o ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo. Er bod y gwaith recriwtio yn parhau, mae'n anochel y bydd rhai gofalwyr maeth yn ymddeol neu'n symud ymlaen, ac mae'n parhau yn her i gynyddu'r garfan weithredol o ofalwyr.

Un o'r blaenoriaethau yn y strategaeth comisiynu plant a phobl ifanc yw recriwtio gofalwyr maeth newydd a chadw'r rheini sydd eisoes wedi'u cymeradwyo. Y bwriad yw cynyddu gallu'r gwasanaeth gan o leiaf 30 lleoliad yn ystod y pedair blynedd nesaf.

Nododd arolygiad 2013 bod y gwasanaeth maethu yn cael ei reoli yn effeithiol, ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn, bod ganddo systemau da ar gyfer ymgynghori, ei fod yn darparu cymorth a chanllawiau da i ofalwyr maeth a bod ganddo systemau da i lywio lleoli a pharu. Mae'r tîm maethu yn un profiadol sydd â lefel cadw staff uchel a lefel absenoldeb salwch isel i gefnogi sefydlogrwydd a dilyniant wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Dywedodd gweithwyr cymdeithasol maethu a gweithwyr cymdeithasol o'r timau gwaith maes bod y cyfathrebu rhyngddynt yn dda a'i fod wedi gwella ers i'r gwasanaeth maethu gael ei adleoli. Gweithiwr cymdeithasol penodedig, sydd â phrofiad sylweddol o reoli achos ac amddiffyn plant, sydd â'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo a datblygu gofal gan berthynas o fewn y tîm maethu.

Comisiynir gwasanaethau preswyl i blant trwy ddarparwyr gwirfoddol neu annibynnol megis Gweithredu dros Blant neu Barnardos. Mae cartref plant Tŷ Robin Goch yn darparu gwasanaeth seibiant i blant ag anableddau dysgu.

Meysydd o gynnydd

- Sefydlu'r tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd er nad yw'r gwasanaeth wedi'i adolygu hyd yma.

Meysydd i'w gwella

- Cysoni polisïau ar gyfer oedolion hŷn wedi'u hintegreiddio â'r gwasanaethau iechyd meddwl ar draws dau fwrdd iechyd.

<u>Yr effaith ar fywydau pobl</u>:

Oedolion

Mae strategaeth ymgynghori wedi'i sefydlu o fewn y cyngor. Roedd pobl sy'n derbyn gwasanaeth yn destun proses ymgynghori yn 2012 a oedd yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Dangosodd arolwg o bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol, er enghraifft, bod bron bob un o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth.

Mae gwasanaeth adnoddau cymunedol y Fro wedi'i gyd-leoli gyda gwasanaethau gofal canolraddol y Fro a gwasanaeth adnoddau Bwrdd Iechyd Prifysgol y Fro bellach o dan un gwasanaeth ambarél. Y nod yw hyrwyddo annibyniaeth trwy ail-alluogi, lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal a darparu un pwynt cyswllt ar gyfer ail-alluogi. Cynhaliwyd arolwg o fodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth gan y cyngor ym mis Hydref 2012 ar gyfer y gwasanaethau hyn, ac roedd y canlyniadau yn gadarnhaol ar y cyfan.

Mae arolygon cyngor hefyd wedi'u cynnal ar gyfer gwasanaethau preswyl i oedolion, gwasanaethau seibiant i oedolion, lleoli oedolion, diogelu a'r ganolfan gyswllt, Contact One Vale. Roedd yr arolygon yn gyfyngedig i raddau o ran nifer yr ymatebwyr, ond er hynny, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn galonogol.

Mae darpariaeth gofal cartref wedi cynyddu ar gyfer preswylwyr hŷn ond mae wedi gostwng ar gyfer y rhai sydd dan 65 oed. Mae pennaeth y gwasanaethau i oedolion yn adrodd bod maint y pecynnau gofal wedi cynyddu ar gyfer pobl gydag anghenion mwy cymhleth. Cafwyd gostyngiad yn yr oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty er bod y niferoedd yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r Cyngor yn adrodd ei fod wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd i ddatblygu gwasanaeth rhyddhau integredig ar gyfer y rhai hynny ag anghenion cymhleth ond mae angen gwaith pellach i sefydlu'r gwasanaeth hwn.

O dan Ran 4 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a ddaeth i rym yn 2012, mae'r hawl i eiriolaeth annibynnol wedi'i ymestyn ar gyfer cleifion sy'n destun gorfodaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a chleifion mewnol gwirfoddol. Mae'r cyngor yn adrodd mai Cymorth Eiriolaeth Cymru sy'n darparu'r cymorth hwn ac mae wedi gallu cynnig eiriolaeth annibynnol i 100% o gleifion sy'n gymwys ac sydd eisiau'r gwasanaeth hwn.

Mae timau therapi galwedigaethol wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn yr amserau aros am wasanaethau, mae amserau aros yn llai na mis. Mae hyn o ganlyniad i ailstrwythuro'r tîm a gwella lefelau staffio.

Mae protocol perfformiad darparwyr wedi'i weithredu er mwyn galluogi'r cyngor a'i bartneriaid i ymdrin â phroblemau oherwydd perfformiad gwael gan unrhyw ddarparwr a gomisiynwyd. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod hyn yn cael effaith ar wella ansawdd rhai gwasanaethau a bydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae data perfformiad yn nodi bod y cyngor yn perfformio'n dda o ran darparu asesiadau ac adolygiadau ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion.

Plant

Mae'r perfformiad yn dda yn y gwasanaeth i blant, ac mae'r cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau statudol bron ym mhob maes.

Y llynedd adroddodd y cyngor bod angen lleihau ei boblogaeth o "plant sy'n derbyn gofal" a'i fwriad oedd cyflawni hyn trwy gynllunio ar gyfer lleoliadau parhaol; defnyddio gorchmynion preswyl neu orchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Mae data eleni yn nodi y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Bu cynnydd bychan yn nifer y plant sydd â'u henwau ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn nifer y plant y nodwyd eu bod mewn angen. Mae'r cyngor yn parhau i ddangos perfformiad cryf yn ei brydlondeb o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant a chyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol.

Mae'r cyngor yn parhau i ddangos perfformiad cryf o ran bodloni ei rwymedigaethau statudol i blant sy'n derbyn gofal.

Roedd iechyd plant sy'n derbyn gofal yn faes y nodwyd fel bod angen sylw yng ngwerthusiad y llynedd. Mae canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael eu hasesiad iechyd statudol wedi cynyddu ond mae'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Adlewyrchir y duedd hon hefyd yn nifer y plant y mae deintydd wedi edrych ar eu dannedd yn ystod y flwyddyn. Serch hynny, mae bron bob un o'r plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cofrestru gyda meddyg teulu o fewn 10 diwrnod i gael eu lleoli.

Mae plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni'n weddol dda o fewn y system addysg gyda chanlyniadau Cyfnod Allweddol 2 da iawn a darlun sy'n gwella yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae pobl ifanc hefyd yn perfformio'n dda mewn cymwysterau allanol, gyda phlant sy'n derbyn gofal ym Mro Morgannwg yn cyflawni'r sgôr pwyntiau cyfartalog uchaf yng Nghymru.

Er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn sylweddol, mae canran y plant sydd wedi profi tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn bron wedi dyblu. Mae'r cyngor yn adrodd bod y cynnydd yn rhannol oherwydd y strategaeth i hyrwyddo cynlluniau lleoliadau parhaol ond hefyd oherwydd nifer fechan o blant sy'n heriol i'w lletya ac sydd weithiau yn ei chael hi'n anodd ymgartrefu o fewn amgylchedd teuluol. Mae datblygiadau ar waith i fynd i'r afael â'r diffyg dewis o leoliadau priodol ar gyfer y grŵp bychan hwn o blant.

Cynhaliwyd arolwg o leoliadau a pharhad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn trefniadau maethu a chyda gofalwyr maethu. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu holiaduron i ofalwyr a hwyluso dau grŵp ffocws ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol yn gyffredinol.

Dengys data perfformiad bod y cyngor mewn cysylltiad â 100% o bobl ifanc 19 oed a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol a bod 100% ohonynt mewn llety nad yw'n llety mewn argyfwng. Dim ond eu hanner sy'n ymgysylltu â hyfforddiant neu sydd mewn gwaith ac, er bod hyn yn unol â chyfartaledd Cymru, mae'r cyngor wedi cydnabod yr angen i wella cyfleoedd i bobl ifanc sy'n gadael gofal i ymgysylltu â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Meysydd o gynnydd

- Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n derbyn archwiliadau iechyd statudol wedi cynyddu.
- Perfformiad gwell o ran y plant sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 3 ac mewn sgoriau ar gyfer cymwysterau allanol.

Meysydd i'w gwella

- Gwella cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

GALLU

<u>Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol</u>:

Oedolion

Ceir heriau allweddol wrth ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer y nifer cynyddol o bobl hŷn yn y Fro ac ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd cynyddol gymhleth. Bydd yn rhaid i'r cyngor fod yn arloesol wrth ymateb i ostyngiadau mewn incwm a lleihau'r effaith bosibl ar y ddarpariaeth o wasanaethau. Mae strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl hŷn wedi'i sefydlu, sy'n nodi sut y mae'r cyngor yn bwriadu bodloni anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn o fewn yr adnoddau a fydd ar gael yn ystod y cyfnod rhwng 2011 a 2018.

Mae'r cyngor wedi ail-dendro'r contractau llety â chymorth er mwyn gwella ymhellach ansawdd ac effeithiolrwydd cost tai â chymorth yn y Fro.

Adroddir am y cynllun ariannol tymor canolig drafft dros dro a'r rhaglen gyllideb derfynol i'w craffu yn fisol. Mae'r cyngor yn amcangyfrif colled o £2.4m dros bedair blynedd o ganlyniad i gyflwyno uchafswm £50 Llywodraeth Cymru ar gyfer taliadau am ofal nad yw'n ofal preswyl.

Mae'r cyngor yn parhau yn aelod o Raglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Gwnaed y penderfyniad i gau cartref preswyl Bryneithin yr oedd y cyngor yn berchen arno ym mis Rhagfyr 2009, a chaewyd y cartref gofal yn ffurfiol ym mis

Mawrth 2013. Ers hynny, mae gweithgor cabinet wedi'i sefydlu i ystyried dewisiadau ar gyfer dyfodol y safle. Y flaenoriaeth yw nodi dewis ymarferol ar gyfer ailddatblygu'r safle a fydd yn bodloni anghenion gofal a chymorth pobl hŷn sy'n byw yn y Fro. Mae cyfnod o ymgynghori gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r defnydd o'r safle yn y dyfodol wedi cychwyn.

Mae'r cyngor yn parhau i arwain ar nifer o fentrau gyda chynghorau eraill a chyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i wella gwasanaethau a gallu.

Plant

Mae'r cyngor yn adrodd ei fod wedi parhau i gyflawni arbedion corfforaethol yn y gwasanaethau i blant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Serch hynny, mae lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn parhau i achosi pwysau ariannol. Yn ôl y data perfformiad, mae gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gwasanaeth yn parhau i dyfu.

Mae'r cyngor yn edrych ar yr angen i gomisiynu lleoliadau sy'n cynnig gwell gwerth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae strategaeth gomisiynu'r cyngor yn cynnwys datblygu strategaeth recriwtio ar gyfer gofalwyr maeth, gan ostwng cyfanswm nifer y bobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl prif ffrwd, a datblygu amrywiaeth y llety sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Adroddodd y cyngor bod nifer y bobl ifanc sydd angen gofal preswyl wedi parhau i fod yr un fath â'r llynedd ond bu cynnydd i'r angen am leoliadau preswyl arbenigol iawn ar gyfer pobl ifanc ag ymddygiadau cymhleth a heriol, a phlant anabl. Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu unedau llety llai ar gyfer plant sy'n ei chael hi'n anodd ymgartrefu mewn gofal maeth.

Mae'r cyngor yn aelod o Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru, sef partneriaeth o awdurdodau ar draws Cymru sy'n cydweithio i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a chyflawni gwerth am arian wrth sicrhau lleoliadau yn y sector annibynnol trwy gydweithio'n gydweithredol. Mae llwyddiant y fenter hon yn bwysig ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Ceir tystiolaeth bod y cyngor yn buddsoddi mewn strategaethau ataliol megis Dechrau'n Deg a'r tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd i ddarparu ymyrraeth a chefnogaeth gynnar i deuluoedd sy'n agored i niwed.

Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer 2013/14 yn cefnogi mentrau pwysig o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys yr angen i gynyddu gofalwyr maeth mewnol.

Mewn hinsawdd ariannol anodd, mae'r cyngor wedi parhau i gydnabod ei gyfrifoldebau i oedolion a phlant agored i niwed ac, hyd yma, mae wedi llwyddo i amddiffyn cyllideb y gyfarwyddiaeth i ryw raddau.

Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi a chadw gweithlu profiadol. Mae'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn adrodd ei bod wedi recriwtio'n llwyddiannus i swyddi parhaol yn y gwasanaethau i blant yn ystod y flwyddyn, a hynny o ffynonellau mewnol ac allanol. Ni cheir dibyniaeth drom ar staff asiantaeth erbyn hyn. Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn y gwasanaethau i oedolion yn parhau'n dda.

Meysydd o gynnydd

- Mae'r cyngor yn sefydlu enw da am arwain ar fentrau newydd sy'n cynnwys partneriaid allweddol.
- Recriwtio'n llwyddiannus i swyddi yn y gwasanaethau i blant, cyflawni cydbwysedd rhwng dyrchafu'n fewnol a denu sgiliau a phrofiad ymgeiswyr allanol.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i flaengynllunio i fodloni anghenion cyfran sy'n cynyddu o bobl hŷn yn y boblogaeth.

Darparu cyfeiriad:

Ceir cefnogaeth gorfforaethol gref ar gyfer darparu'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae gan y gyfarwyddiaeth dîm o uwch reolwyr sefydledig a phrofiadol.

Mae'r cyngor wedi cytuno ar system gabinet o lywodraethu gyda chyfansoddiad. Mae'r cabinet yn cynnwys saith cynghorydd sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion strategol a gweithredol. Mae cynghorwyr nad ydynt yn y cabinet yn parhau'n weithredol ym musnes y cyngor trwy system o graffu a phwyllgorau eraill.

Ceir panel rhianta corfforaethol trawsbleidiol, dan gadeiryddiaeth yr aelod cabinet dros wasanaethau i blant. Y panel sy'n ystyried y trefniadau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r trefniadau craffu o fewn y cyngor yn gweithio'n effeithiol ac mae AGGCC wedi arsylwi'r pwyllgor gofal cymdeithasol ac iechyd wrth ei waith. Dangosodd aelodau ddiddordeb brwd ac ymgysylltiad o ran darparu gwasanaethau a'r heriau y rhagwelir y bydd y gymuned a'r cyngor yn eu hwynebu.

Mae'r cyngor wedi sefydlu cynllun gwasanaeth ar gyfer 2013 i 2017, sy'n cynnig trosolwg o waith gwella'r gyfarwyddiaeth. Bydd cynlluniau strategol allweddol cyfarwyddiaeth y gwasanaethau cymdeithasol yn 2012/2013 yn parhau i ymwneud â'r cynllun ar gyfer newid a rhaglen y gyllideb.

Mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol Bro Morgannwg yn gweithredu fel y bartneriaeth strategol gyffredinol sy'n gyfrifol am gynllunio cymunedol ym Mro Morgannwg. Cefnogir y Bwrdd Gwasanaeth Lleol gan bum partneriaeth strategol, sy'n gweithredu fel yr uwch bartneriaethau ar gyfer y themâu strategol y mae

ganddynt gyfrifoldebau drostynt. Mae’r rhain yn cynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a lles, dysgu a sgiliau a phlant a phobl ifanc.

Cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yw'r uwch swyddog sy’n gyfrifol am fwrdd prosiect y gwasanaethau integredig ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae’n cynnwys cynrychiolwyr lefel uwch o Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Mae'r cyngor yn adrodd bod gan y Bwrdd nifer o wasanaethau integredig a ddechreuwyd, yn arbennig yn y gwasanaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl ac ar gyfer pobl â phroblemau oherwydd heneiddio (trwy ymgyrch WYN).

Mae'r cyngor wedi cytuno gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn arwain ar strategaeth gomisiynu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn partneriaeth y flwyddyn nesaf.

Mae'r cynllun cyflwyno strategaeth gymunedol 2011/2021 (a baratowyd dan ddyletswydd y cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) yn cynnwys y datganiad na ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc fod dan anfantais oherwydd tlodi. Mae canlyniadau a gweithredoedd sy’n ymwneud â thlodi wedi'u nodi yn y strategaeth gymunedol ac maent yn anorfod yn gysylltiedig â’r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â thlodi plant mewn ffordd gydgysylltiedig, gofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi a gofal plant digonol a fforddiadwy ar gael i helpu rhieni/gofalwyr i gael mynediad at gyflogaeth.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn y cyngor yn gryf ac yn effeithiol. Mae enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth i'w gweld yn y bartneriaeth plant a phobl ifanc, y bwrdd lleol diogelu plant, y bartneriaeth diogelwch cymunedol a'r cynllun Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Meysydd o gynnydd

- Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth gref yn y gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae craffu yn parhau i gynnig lefel dda o herio.